


# Treftadaeth, Cymunedau a Chyd-greu Lle Yng Nghastell-nedd Port Talbot, De Cymru

Alexander Langlands, Prifysgol Abertawe

# CIP Astudiaeth Achos

Creative Communities


UKRI Arts and Humanities Research Council

Northumbria University NEWCASTLE

© 2024. Mae'r gwaith hwn wedi'i drwyddedu o dan
CC BY-NC-SA 4.0

I gael rhagor o wybodaeth am Gymunedau Creadigol AHRC ewch i www.creativecommunities.uk


Ariennir Cymunedau Creadigol gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn y DU (Cytundeb Grant Rhif AH/X001555/1) ac fe'i cynhelir ym Mhrifysgol Northumbria, Newcastle.



# Crynodeb

Yn fy rôl fel Ymarferydd Arloesi Cymunedol, bûm yn cydweithio â rhanddeiliaid ar draws y sectorau ym mwrdeistref Castell-nedd Port Talbot yng Nghymru. Fy nod oedd archwilio sut byddai eco-system dreftadaeth effeithiol wedi'i chyd-greu yn edrych, ac ystyried sut gall gwerth diwylliannol treftadaeth gymunedol lywio fframweithiau statudol yn well, ar gyfer gwarchod treftadaeth mewn ffurfiau tecach o greu lleoedd

Roedd fy ymchwil yn canolbwyntio ar astudiaeth achos drylwyr o brosiect a gyd-grëwyd mewn hen efail pwll glo o Oes Fictoria, a oedd yn rhan o Barc Gwledig Craig Gwladus, sy'n cael ei redeg gan y gymuned. O ganlyniad i'r ymchwil, daeth cymuned o arferion treftadaeth i'r amlwg a oedd yn cynnwys partneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, yn ogystal â charfan o fyfyrwyr coleg addysg bellach a ddaeth i symbylu'r broses o sefydlogi'r adfail hanesyddol fel rhan o uchelgais 'creu lle' y gymuned ar gyfer y parc.



Mae'r prosiect wedi nodi'r ystod o arbenigeddau a gwybodaeth sydd eu hangen i ysgogi pobl i gymryd rhan mewn treftadaeth dan arweiniad y gymuned. Tynnwyd sylw at y potensial ynghylch lle gallai ymchwil a datblygu lenwi bylchau yn y ddarpariaeth o safbwynt statudol, ynghyd ag effeithiau diffyg cyfleoedd hyfforddi i bobl ifanc mewn ardaloedd ôl-ddiwydiannol sy'n profi amddifadedd cymdeithasol ac economaidd tymor hir.

Mae angen rhagor o ymchwil i gyd-greu ymyriadau treftadaeth gymunedol, a dylai cyllid gael ei ymrwymo i ddatblygu gwasanaeth treftadaeth gymunedol un stop wedi'i anelu at gyd-reoli, fel bod y sector mewn gwell sefyllfa i gyflawni saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
Mae gan y fframwaith CIP arfaethedig ar gyfer arferion treftadaeth y potensial i lywio ymyriadau cynnar gyda chymunedau cyn bod yn sail i ymchwil, fel bod yr effeithiau ar y diwedd yn cael eu mynegeio'n well i anghenion cymdeithasol ehangach.

# Cyflwyniad

Yn 2019, dyfarnodd Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru (RWIF) gyllid Prifysgol Abertawe i gynnal prosiect tair blynedd a oedd yn archwilio rôl treftadaeth gyhoeddus ym maes adfywio cymunedol. Roedd yn adeiladu ar waith ymgysylltu cymunedol hirsefydlog yng Nghwm Tawe Isaf, a ariannwyd drwy Cymunedau Cysylltiedig AHRC a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF). Dangosodd prosiect ymgysylltu wedi'i ariannu gan UKRI gyda grwpiau cymunedol, ysgolion ac elusennau bod angen clir am ymgysylltu mwy ystyrlon mewn dyheadau creu lleoedd ehangach mewn ardaloedd o amddifadedd yn Ne Cymru. O'r gwaith hwn, daeth y Ganolfan Ymchwil a Hyfforddiant Treftadaeth (CHART), menter a gynlluniwyd i amlygu rôl bwysig safbwyntiau treftadaeth a diwylliannol wrth sicrhau budd i'r cyhoedd.



Yn dilyn datblygiadau diweddar ym mwrdeistref Castell-nedd Port Talbot, gwelwyd mwy yn cael ei wneud o dreftadaeth gyfoethog yr ardal i ysgogi twristiaeth, adolygu ei strategaeth ddiwylliant, a meddwl sut y gellid mabwysiadu dull cynaliadwy o reoli a chynnal ei asedau treftadaeth. Darparodd prosiect RWIF adnoddau i ymgysylltu â Chyngor Castell-nedd Port Talbot, gan ein galluogi i gychwyn sgyrsiau gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid ar draws yr awdurdod lleol i nodi blaenoriaethau, heriau a chyfleoedd. Fe wnaeth hefyd gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau peilot, gyda'r nod o edrych ar y rôl y gallai cymunedau ei chwarae mewn asedau treftadaeth a chyd-greu naratif i gefnogi uchelgeisiau creu lleoedd ehangach.

Wrth i brosiect RWIF Prifysgol Abertawe ddod i ben, gwelwyd rôl yr Ymarferydd Arloesi Cymunedol (CIP), a gyflwynwyd drwy raglen Cymunedau Creadigol AHRC, fel ffordd o gynyddu gweithgareddau CHART yn yr ardal hon. Roedd yn gyfle i ffurfioli'r hyn roeddem yn ei wneud yn barod, i rannu arferion gyda phrosiectau tebyg eraill ledled y DU, ac i ddysgu sut gallai cyd-greu estynedig arwain at ganlyniadau gwell. Drwy rôl y CIP, llwyddwyd i gael archwiliad beirniadol o sut y gallai gwasanaethau treftadaeth sy'n rhoi pwyslais ar werth cymunedol edrych, gan gadw golwg ar yr un pryd ar yr angen i addasu mewn prifysgolion er mwyn gallu ymgorffori ymarfer cyd-greu mewn fframweithiau ymchwil.

Creative Communities | UKRI Arts and Humanities Research Council | Northumbria University NEWCASTLE

# Cyd-destun yr Ymchwil

Yng Nghymru, mae 'treftadaeth' yn fater datganoledig, felly mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu'n helaeth at gadwraeth a dathlu treftadaeth. O ganlyniad, daeth amryw o gyrff a sefydliadau a oedd yn gyfrifol am y cylch gwaith hwn eu datblygu neu eu creu ar ôl 1999. Cenhadaeth Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yw gofalu am leoedd hanesyddol, eu gwarchod a'u cynnal a'u cadw. Un o'r nodau pennaf yw helpu pobl i drysori a mwynhau ein hamgylchedd hanesyddol i gyflawni ei dargedau ar gyfer amgylchedd hanesyddol hygyrch sy'n cael ei warchod yn dda. Serch hynny, mae llawer o'i incwm refeniw a chyfalaf yn mynd tuag at waith atgyweirio a chynnal a chadw.

Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) yn cefnogi Cadw yn ei ddyletswydd statudol i ddatblygu a hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth forol ac adeiledig archaeolegol Cymru. Yn unigryw yn y DU, sefydlwyd corff ar wahân ar gyfer rheoli a diogelu'r amgylchedd hanesyddol, sy'n cynnwys pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru. Mae'r gwaith o redeg y gwasanaethau hyn yn effeithiol wedi bod yn destun craffu dro ar ôl tro dros y pymtheg mlynedd diwethaf, gyda chynigion amrywiol ar gyfer newid strwythur wedi'u cynllunio i liniaru rolau sy'n gorgyffwrdd a dyblygu gwaith. Hyd yma, mae hyn wedi golygu uno pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru. Ochr yn ochr â gwasanaethau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru, sy'n cael eu hariannu gan y llywodraeth, ac yn derbyn cyllid sy'n gymesur uwch na Cadw.

**Adeg ysgrifennu hwn yn 2024, gellir dweud bod y sector treftadaeth o dan bwysau oherwydd un o'r gostyngiadau mwyaf eithafol yn y gyllideb a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023. Er yr adolygiad i ddarparu mwy, mae hyn wedi rhoi casgliadau cenedlaethol a gwasanaethau treftadaeth statudol mewn perygl.**

Roedd y toriad o £3m mewn cymorth grant i Amgueddfa Cymru yn bwrw amheuaeth ar hyfywedd saith safle, ac ystyriwyd y byddai'r toriad arfaethedig o 22% i Cadw a CBHC, a ostyngwyd i 10.5% ers hynny, nid yn unig yn effeithio ar hyfywedd darparu gwasanaethau statudol, ond yn tanseilio cynaliadwyedd sefydliadau treftadaeth bach ar draws y rhanbarthau. Mae'r toriadau hyn yn dilyn cwtogi gwariant y llywodraeth ddatganoledig dro ar ôl tro. Yn wir, rhwng 2014 a 2018, cyfrifwyd bod y gostyngiadau hynny dros 30%.

Dydy'r darlun ddim mor dywyll i ddarpariaeth a gwasanaethau treftadaeth Castell-nedd Port Talbot. Mae cyfran sylweddol o'i Gronfeydd Rhannu Ffyniant wedi cael ei neilltuo ar gyfer 'Creu Balchder a Lle' drwy Gronfa Treftadaeth, Diwylliant a Thwristiaeth bwrpasol. Yn benodol, mae Uwchgynllun Coridor Treftadaeth Cwm

Creative Communities
UKRI Arts and Humanities Research Council
Northumbria University NEWCASTLE

Nedd wedi elwa o'r Gronfa Ffyniant Bro ac mae cyhoeddiad diweddar NLHF, y byddai Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn cael dynodiad 'Lle Treftadaeth' yn rhoi llawer o hyder ar gyfer datblygu strwythur a chynulleidfa yn y dyfodol.

**Mae'r llwyddiannau hyn yn adlewyrchu angen yn yr awdurdod i fynd i'r afael â diwylliant a threftadaeth, ond hefyd awydd wrth galon cynrychiolwyr etholedig ac anetholedig yr awdurdod i ddod o hyd i 'ffyrdd newydd o ddathlu ein lle anhygoel yng Nghastell-nedd Port Talbot' a defnyddio thema treftadaeth i wneud hynny drwy ymrwymo i Strategaeth Treftadaeth.**

Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol arloesol sy'n rheoli'r fframwaith polisi ehangach yng Nghymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), yn bwysig i waith CHART ym maes treftadaeth. Mae'r ddeddf yn rhwymo gwasanaethau cyhoeddus yn gyfreithiol i ddarparu, ymysg pethau eraill, Cymru o gymunedau cydlynol a diwylliant bywiog. Mae'r siarter Creu Lleoedd ddiweddar ar gyfer Cymru, sydd wedi'i mynegeio'n uniongyrchol i hyn, wedi'i dylunio i greu cymunedau cynhwysol, cymdeithasol gysylltiedig a bywiog ledled Cymru.

Fodd bynnag, mae treftadaeth yn y sector cyhoeddus yn aml yn eistedd rhwng gwahanol asiantaethau, o'r celfyddydau a diwylliant i gynllunio a thwristiaeth, ac o'r herwydd mae'n adlewyrchu'n fras y trafodaethau yn llenyddiaeth feirniadol y diffiniadau amrywiol o 'dreftadaeth'. Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol i'r astudiaeth achos hon yw trafodaethau ynghylch sut na ddylai treftadaeth gael ei hystyried yn endid ffisegol statig a sefydlog i'w 'chadw', ond yn hytrach yn rhywbeth sy'n cael ei 'gwneud' a'i 'hatgynhyrchu' gan bobl, yn weithredol, o ddydd i ddydd. Felly, mae'r meini prawf ar gyfer asesu gwerth treftadaeth ymysg cyrff proffesiynol, statudol a llywodraethol yn aml yn bur wahanol i rai cymunedau treftadaeth lleol. Ac eto, gellir gweld diffiniadau sydd wedi'u hawdurdodi, sy'n arwain at drafodaeth gref, fel cynnyrch cyllid i'r sector gwasanaethau treftadaeth sy'n cael ei ddyrannu'n bennaf ar gyfer cadwraeth a rheoli asedau sefydlog mewn strwythur nad yw wedi'i arfogi'n ddigonol i ddarparu ar gyfer y gwaith cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol y gall treftadaeth ei wneud er budd ehangach y cyhoedd. Ar ben hyn mae'r materion sy'n gyffredin yn y sector a'r ffordd y defnyddir y term 'cymuned' ei hun. Mae'r ffordd y mae'n cael ei drin yn aml yn golygu nad yw'n fuddiol mewn ceisiadau, sy'n cael eu gorfodi'n gyson, heb gydsyniad, ar grwpiau ymylol sydd wedi'u diffinio yn ôl elfennau cymdeithaseg penodol. Felly, mae angen ymwybyddiaeth feirniadol o'r athroniaethau gwleidyddol sy'n sail i fantra i fod yn fwy 'lleol' gyda mwy o ffocws ar 'gymuned'.

**Gyda'i gilydd, dyma'r cyd-destunau beirniadol, polisi datganoledig ac awdurdod lleol lle mae ymchwil CIP i gyd-greu gyda phartneriaid a chymunedau ar thema treftadaeth wedi'u gosod. Mae'n cynnig cyfleoedd tymor real i ailfeddwl am y rôl y gall treftadaeth ei chwarae wrth greu Cymru flaengar, iach a theg gyda chyfranogiad cymunedol wrth ei chalon.**



# CIP Gweithgareddau

Roedd CHART yn awyddus i ddysgu o ymwneud â'r rhaglen Gwella Partneriaethau sy'n Seiliedig ar Le wrth Ymgysylltu â'r Cyhoedd a sicrhau bod ei weithgareddau diwylliannol a gyd-grëwyd gyda chymunedau yn cael eu cynnal ar gysylltiadau sefydliadol yn hytrach na rhyngbersonol. Un o'r pryderon canolog oedd gan gymunedau o ran ymgysylltu Addysg Uwch oedd y posibilrwydd y byddai’r cysylltiadau, y cydweithrediadau a'r ffrydiau ariannu yn methu pan fyddai aelod o staff academaidd yn symud ymlaen. Felly, cafodd ymchwil CIP ei hehangu i waith presennol ar y cyd â phartneriaid i gael gwybodaeth ymchwil o ymarfer, yn hytrach na gweithredu fel prosiect ar ei ben ei hun gyda gweithgareddau ar wahân. Gyda fy mhrofiad yn deillio o dros saith mlynedd o weithio fel archeolegydd maes, pymtheg mlynedd yn y cyfryngau darlledu, a dros ddegawd mewn Addysg Uwch, roedd gen i gefndir a oedd  yn cwmpasu ymarfer a chonfensiynau, gydag ymwybyddiaeth o'r fframwaith statudol, ynghyd â sgiliau dehongli, adrodd straeon, ymgysylltu â'r cyhoedd, ac ymchwilio beirniadol a arweinir gan ymchwil. Rwyf hefyd yn angerddol am ymgysylltu â'r gorffennol drwy gyfrwng cysylltiad diriaethol, dealledig a ffisegol.

Cynhaliwyd amrywiaeth o ymyriadau a gweithgareddau CIP yn ystod cyfnod y prosiect. Roedd y rhain yn cynnwys rhwydweithio â rhanddeiliaid drwy gyfweliadau a chyfarfodydd i ategu strwythur yr ecosystem dreftadaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot ac ymweld â grwpiau cymunedol i ddeall y safleoedd a dyheadau eu heiriolwyr yn well. Comisiynwyd arolwg o wirfoddolwyr a oedd yn gyfrifol am gefnogaeth a stiwardiaeth henebion a/neu archifau hanesyddol (‘Rhwydwaith Treftadaeth’ Cyngor Castell-nedd Port Talbot), a chafwyd gweithdai i edrych ar bryderon, galluoedd a chymhellion. Mae ymgysylltu rhwng aelodau o dîm ‘treftadaeth’ yr awdurdod lleol a CHART wedi bod yn un o nodweddion gweithgarwch y flwyddyn ddiwethaf, a darparodd y CIP ymgynghoriad parhaus ar ddatblygiad Strategaeth Treftadaeth yr awdurdod. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd hefyd gyda swyddogion Cadw i drafod materion yn ymwneud â gwarchod henebion ond

hefyd pwysigrwydd defnyddio eiddo mewn gofal (Mynachlog Nedd) fel ffynhonnell ar gyfer adfywio dan arweiniad y gymuned. Cwestiwn canolog yn yr holl waith ymgysylltu oedd sut y gall amrywiaeth eang o arbenigeddau, diddordebau a hoffterau gyd-greu o amgylch thema treftadaeth i gyflwyno'r achos dros ddiwylliant yn darparu budd i'r cyhoedd.

I roi theori ar waith, roeddwn yn ymwneud â phrosiect cyd-greu parhaus gyda chymuned ymarfer eang ym Mharc Gwledig Craig Gwladus. Roedd dyfarniad CIP AHRC yn caniatáu i mi ddal ati i ehangu prosiect peilot cynharach (a gyflwynwyd ar y cyd â chyllid NHLF), ac i fynd i'r afael yn benodol â chymeriad cyd-greu diwylliannol, mewn rhan gymharol ddifreintiedig o'r DU. Gallai'r strwythur hwn, a oedd yn dod â chyllid cyngor ymchwil ac adnoddau NLHF at ei gilydd yn annibynnol, fod yn fodel ar gyfer treftadaeth gymunedol a oedd yn cyd-fynd ag ymchwil, ond yn bwysicach na dim, roedd yn cadw momentwm dyheadau treftadaeth cymuned Parc Gwledig Craig Gwladus yn nwylo'r gymuned.



Roedd y gymuned ymarfer ym Mharc Gwledig Craig Gwladus yn cynnwys ystod eang o gyfranogwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Lisa Kirman, rheolwr rhan-amser y parc, oedd yn arwain y gwaith, mewn rôl a gynhaliwyd drwy gyllid grant ac awdurdod canolog. Diane Davies, athrawes wedi ymddeol, oedd cadeirydd Cyfeillion Parc Craig Gwladus a oedd, ynghyd â chriw o wirfoddolwyr cyson, yn helpu i gynnal mynediad drwy'r parc a gwella ei fioamrywiaeth drwy blannu coed a rheoli llystyfiant arall (h.y. rhywogaethau goresgynnol). Roedd Gower Training and Wildlife wedi dod i gefnogi'r Cyfeillion gyda'r uchelgais, gan gynnig hyfforddiant ac arweiniad ar reoli llystyfiant ac adfer cynefinoedd. Bu Coed Lleol, Richard Manning, ac Anna Strickland (ymysg eraill) yn gweithio gyda Lisa i ddatblygu a chyflwyno rhaglen o weithgareddau lles yn seiliedig ar reoli amgylcheddau'r coetir a chymryd rhan mewn crefftau coed gwyrdd traddodiadol.

Gellid gweld bod iechyd amgylcheddol y parc, y mynediad at natur a datblygu gofod gwyrdd cymunedol mewn cyflwr da, ond ar ôl cloddio ddwywaith ar raddfa fach gyda'r

gymuned, gyda chefnogaeth Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent, y teimlad oedd y gellid gwneud mwy o'r asedau treftadaeth. Roedd Parc Gwledig Craig Gwladus wedi'i leoli ar safle hen lofa ddrifft o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac roedd gweddillion y diwydiant wedi goroesi ar ffurf peiriandy, tramffordd, rheilffordd inclein, ategwaith amrywiol ac adfeilion hen efail. Roedd y dramffordd a'r rheilffordd inclein wedi dod i'r amlwg unwaith eto ac yn creu llwybrau eang rhagorol a oedd yn rhoi mynediad hygyrch iawn at fannau gwyrdd. Fodd bynnag, roedd adeiladau'r pwll glo, a oedd yn prysur droi'n adfeilion, yn dadfeilio'n gyflym, heb ddim gwarchodaeth statudol, ac roedd y peiriandy'n dechrau dod yn bryder iechyd a diogelwch.

Daeth cymuned greadigol y parc, yr oeddwn i'n aelod ohoni, at ei gilydd i gyd-greu prosiect a gynlluniwyd i fynd i'r afael â nifer o faterion. Yn gyntaf, yn unol â chylch gwaith NLHF, roedd angen deall y dreftadaeth yn well, ac roedd angen i bobl gymryd rhan yn y broses honno. Yn ail, roedd consensws ehangach ar draws yr awdurdod bod buddsoddi mewn sgiliau, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, yn rhywbeth yr oedd angen rhoi sylw iddo. Dyna farn aelod arall o'r gymuned greadigol hefyd, y Cynghorydd Jeremy Hurley, aelod cabinet dros newid yn yr hinsawdd a thwf economaidd, a oedd yn gweld faint o adeiladau hanesyddol yn y rhanbarth oedd yn llithro ar y gofrestr 'Mewn Perygl' a bod atgyweirio'r adeiladau hyn yn waith ar gyfer contractwyr lleol gyda'r sgiliau priodol.

**Nid dim ond 'cadw' yr henebion oedd nod y prosiect yn y parc. Drwy wella'r henebion, gallem hefyd wella iechyd cymuned y parc, gwella profiad yr ymwelwyr, mynd i'r afael â'r bylchau mewn sgiliau, a gosod y sylfeini ar gyfer cefnogi cadwraeth adeiladau hanesyddol yn well yn yr awdurdod.**

Er mai'r peiriandy oedd yr amlycaf o blith henebion treftadaeth ddiwydiannol y parc, teimlwyd bod yr efail yn brosiect mwy hylaw. Y cynllun i gyd gyda'i gilydd oedd datgelu'r adfeilion, eu harchwilio'n archaeolegol, diffinio amlinelliadau'r waliau, sefydlogi cyfansoddiad yr adeilad, dylunio llwybr cerdded drwy'r heneb, a chynnig dehongliad sylfaenol o hanes a swyddogaeth yr adeilad.

Fodd bynnag, wrth wraidd y cydweithio roedd yr ethos a ddatblygwyd gan Lisa Kirman mewn partneriaeth agos â'r grŵp Cyfeillion. Edrychwyd ar y sefyllfa fel 'cychwyn y bws a mynd ag ef i'r gêr cyntaf' yn hytrach na chael un gyrchfan o'r dechrau. Lle bynnag y bo modd, roedd yn hanfodol gadael i'r 'teithwyr' benderfynu ar y llwybr a natur y daith, ac o'r herwydd, roeddem am adael i'n partneriaid gyfrannu at ganlyniad y cydweithio drwy gyfranogiad *gweithredol*.

Roedd fy nghysylltiadau blaenorol ar brosiectau creu lleoedd yng Nghwm Tawe Isaf wedi dangos pa mor effeithiol oedd ymgysylltu cyn prentisiaeth gyda phobl ifanc ar

ddarpariaeth Adeiladu Lefel Diploma ac NVQ, ac felly estynnwyd gwahoddiad i fyfyrwyr a staff Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot, a oedd yn gweithio yn yr ardal hon. Chwaraeodd Jamie Piper (arweinydd y cwrs) ac Ieuan Humphreys (tiwtor) ran hanfodol yn y gwaith o ddarparu adnoddau a gweithio o ochr y coleg, gan gyfleu anghenion y myfyrwyr, a'r ffordd orau o reoli eu disgwyliadau. Daeth dwy garfan o fyfyrwyr (tua 15 ym mhob un) o gampws Coleg Maesteg ar draws blynyddoedd academaidd 22/23 a 23/24 i weithio ar y prosiect, gan olygu y byddai rhwng 6 ac 8 unigolyn ar y safle ar unrhyw un adeg. Dydd Mercher a dydd Iau oedd y diwrnodau gwaith ar gyfer y tîm drwy gydol y tymor academaidd.


Cyn y gellid gwneud unrhyw waith cadwraeth, roedd angen i'r heneb fod yn 'hysbys' mewn termau gwyddoniaeth treftadaeth. Cymerais yr awenau a darparu briff ar gyfer ymchwiliad archaeolegol, a gofynnwyd i Archaeoleg Cymru wylio gweithgareddau clirio gyda phob grŵp a chynnal gwerthusiad archaeolegol o'r pethau mwyaf sensitif. Roedd yn amlwg bod cerrig yr adeilad wedi cael eu cymryd rywbryd ar ddechrau'r 20fed ganrif, ond roedd digon o dywodfeini Glas lleol a brics wedi'u gwneud â llaw i'w stacio yn barod i'w hailddefnyddio.



*Myfyrwyr yn clirio'r safle © Alex Langlands*

Roedd y myfyrwyr yn ymwneud â gwaith rheoli llystyfiant, clirio'r safle, gwaith paratoi a thechnegau adeiladu cadwraeth i sefydlogi'r adfeilion. Cyflwynwyd yr olaf o'r rhain dan oruchwyliaeth Thom Kinghorn-Evans o Cardigan Bay Architectural Conservation.

Roedd y broses yn cynnwys defnyddio mortar calch traddodiadol i osod tywodfaen lleol a brics wedi'u gwneud â llaw i fynd o amgylch y drysau agored. Oliver Coe fu'n cyflwyno technegau gwaith cerrig traddodiadol i drin cerrig nadd yn gonglfeini. (Ffigur 2). Bu'r myfyrwyr hefyd yn tocio mwsogl ar y waliau sefydlog i amddiffyn eu harwynebau uchaf agored rhag cael eu herydu gan y gwynt a'r glaw. Dyfeisiwyd hyn gan Celtic Wildflowers a Lisa Kirman, yn ddull gwirioneddol arloesol o warchod adfeilion wedi'u sefydlogi yn y tymor hir.




*Cyflwyniad i siapio ymylon ar gonglfeini © Oliver Coe*

Drwy gydol y prosiect, yr heneb, natur y gwaith a chymeriad y myfyrwyr sydd wedi darparu'r egni arweiniol y tu ôl i'r penderfyniadau, a'r ffordd roeddent yn cael eu gwneud ar y cyd. I ymestyn yr hyn yr oedd Lisa yn ei ddweud, nhw sydd wedi dewis llwybr y bws, a hynny mewn ffordd gyson ac ystyriol. Yr hyn a gafwyd dros flwyddyn oedd cydweithrediad a oedd yn cyd-fynd yn dda â thrafodaethau academaidd cyfredol ar natur treftadaeth fel 'proses' yn hytrach na 'chynnyrch'. Nid oes syniad clir o sut y bydd yr efail yn edrych ar ôl gorffen, ac nid ydym yn gwybod a fydd hi'n 'orffenedig' byth. Yr egwyddor bwysicaf yw bod aelodau unigol o'r gymuned yn teimlo y gallant ddefnyddio'r safle i wneud ac atgynhyrchu eu treftadaeth eu hunain o fewn lleoliad yr heneb.

# Canlyniad a Newid

Mae newid sylweddol wedi digwydd yn safle'r Efail, Craig Gwladus. Ddwy flynedd yn ôl, roedd yn ddarn anwastad o dir a oedd wedi'i orchuddio gan lystyfiant. Nid oedd y gymuned sy'n defnyddio ac yn rheoli'r parc yn gwybod amdani i raddau helaeth. Erbyn hyn, mae'n adfail sefydlog, gyda waliau wedi'u hadfer, mynedfeydd gwreiddiol gyda brics o'u hamgylch a chonglfeini taclus.



*Safle'r Efail o Oes Fictoria, haf 2022 © Martin Broughton*



*Safle'r Efail o Oes Fictoria yn ystod mis Mai 2024, yn dangos conglfaen newydd yn y gornel ar y tu blaen a gwaith capio mwsogl yn y canol ar yr ochr chwith © Lisa Kirman*

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae cynlluniau ar droed i ofaint lleol greu cerflun gyda rhai o'r arteffactau haearn a gasglwyd o'r safle nad oedd modd eu dadansoddi, ac mae artist lleol yn creu darlun o'r adeilad pan oedd yn ei anterth yn y 1880au i'w roi ar banel dehongli.

Mae'r gwaith adfer wedi'i gwblhau i safon uchel, gyda phob carreg a bricsen wedi'u gosod gan ddefnyddio dulliau traddodiadol gan fyfyrwyr Grŵp Colegau NPTC. Erbyn hyn, mae'r heneb yn gallu adrodd rhan o stori treftadaeth lofaol y rhanbarth, ac fel y dywedodd Kieran Wilson, un o'r myfyrwyr sy'n cymryd rhan, ***'Mae wedi bod yma ers 100 mlynedd, a nawr bydd yma am 100 mlynedd arall'.***



*Gosodwyd pob carreg a bricsen gan fyfyrwyr Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot gan ddefnyddio dulliau traddodiadol © Thom Kinghorn-Evans*

Ond roedd mwy i'r prosiect na dim ond atgyweirio'r adeilad o'r cychwyn cyntaf: i rai myfyrwyr, mae adeiladu i warchod treftadaeth wedi rhoi profiad ystyrlon a diddorol, un sydd, yng ngeiriau Jamie Piper, wedi datgloi 'ochr greadigol' y cyfranogwyr. Mae sgiliau adeiladu traddodiadol, fel sgiliau saer maen, nid yn unig yn dechnegau adeiladu, maent yn hynod artistig yn yr ystyr bod pob carreg yn cael ei thrin a'i gosod gyda gwerth esthetig mewn golwg. Dywedodd Thom Kinghorn-Evans sut yr oedd wedi sylwi ar newid yn agwedd y myfyrwyr at eu gwaith. Roedd  balchder yn y ffordd yr oeddent yn ei gyflawni, a gofal am edrychiad.

I gymuned ehangach y parc, mae wedi bod yn ysbrydoliaeth. Yn wir, o ganlyniad uniongyrchol i'r gweithgaredd, ysgogwyd Cyfeillion Parc Gwledig Craig Gwladus i ymwneud ag adfail arall, gan ymgynghori â mi ar brosiect posibl a gofyn i Trysor Heritage wneud gwaith cloddio cymunedol. I Diane Davies, roedd elfennau treftadaeth y parc yn ddatblygiad cyffrous, yn rhywbeth oedd yn cael ei  groesawu gan aelodau'r grŵp, ac yn gyfle i ddenu aelodau newydd.

O'r sgiliau a ddaeth i'r amlwg fel rhan o'r prosiect i ddatblygu fframwaith cyd-greu clir ar gyfer gwaith o'r fath, mae prosiect CIP wedi cynhyrchu glasbrint ar gyfer darparu'r math hwn o ymchwil a datblygu ar draws gosodiadau datganoledig. Gall strwythur prosiect cyfannol fel hwn, a gafodd ei arsylwi a'i wneud yn bosibl gan gyllid CIP, helpu i lywio trafodaethau parhaus ynghylch sut mae gwasanaethau treftadaeth sy'n rhoi mwy o bwyslais ar werth cymunedol yn cael eu darparu gan y cyrff statudol, ar y cyd â sefydliadau hyd braich a sefydliadau'r trydydd sector.




Fodd bynnag, nid oedd prosiect yr efail ym mharc Craig Gwladus heb ei broblemau. Ar y cychwyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru doriadau i gyllid ym maes addysg, yn enwedig ym maes darpariaeth prentisiaethau addysg bellach, gan roi'r prosiect yn y fantol. Roedd proffil y garfan o fyfyrwyr, o un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y DU, yn golygu bod angen darparu ar gyfer sbectrwm o wahaniaethau dysgu ac ymddygiad ar y safle, a hynny, ar adegau, heb ddigon o gefnogaeth oherwydd gostyngiadau yn y ddarpariaeth staffio yn y coleg, yn sgil y toriadau. Mae'r hyn a ddaeth i'r amlwg yn dilyn y sefyllfa hon, a'r angen i gynnwys dilyniant penodol ar gyfer cyfranogwyr, yn faes i'w drafod yn y dyfodol gyda phartneriaid yn y coleg. Ond yn bwysicaf oll, os ydym wir yn gwerthfawrogi'r angen i weithio gyda phobl ifanc mewn cymunedau sy'n cael eu gadael ar ôl, ac am drosglwyddo sgiliau ystyrlon a buddiol – fel y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein rhwymo'n gyfreithiol i'w wneud – rhaid i ni gydnabod ymrwymiad mwy cadarn i staffio priodol a chynyddu capasiti yn y maes hwn.

Mae pwysau masnachol hefyd wedi arwain at oedi, gydag Archaeoleg Cymru yn ei chael hi'n anodd cyflwyno adroddiad am eu gwaith oherwydd bod pwysau gan gleientiaid eraill yn cael blaenoriaeth. O safbwynt dilyniant, roedd deall naratif archaeolegol yr adeilad yn allweddol wrth wneud penderfyniadau dylunio ar hyd y daith. O'r dystiolaeth anecdotaidd mewn

mannau eraill yn y rhanbarth, roedd y gwaith mwy proffidiol a oedd yn cael ei gynnig yn y sector masnachol yn golygu bod prosiectau archaeoleg cymunedol yn aml – a hynny'n ddealladwy efallai – yn llai o flaenoriaeth i bartneriaid cyflawni masnachol. Ceir hefyd y mater ym Mharc Gwledig Craig Gwladus nad yw'r asedau hanesyddol wedi'u rhestru ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, y Gofrestr Adeiladau Rhestredig, na'r rhestr Henebion. Roedd hyn yn negyddu ymgynghoriaeth broffesiynol, gan ganiatáu dull symlach nad oedd mor drwm ar adnoddau i gael caniatâd a thrwyddedau. Er nad yw hyn yn eithriadol o bell ffordd, mae'n golygu, lle mae strwythurau hanesyddol yn cael eu dynodi, byddai angen darparu adnoddau ar gyfer lefel uwch o gyngor, cefnogaeth ac amser cyflawni proffesiynol.

Mae hyn yn dod â rôl y CIP a rheolwr y parc i'r tu blaen. Gyda'i gilydd, roedd eu sgiliau amrywiol yn galluogi ymarferwyr o feysydd ecoleg, archaeoleg, cadwraeth, ymgysylltu a dehongli i ddod at ei gilydd ar gyfer un prosiect. Roedd y broses hon o gyd-greu – o feddwl am y prosiect i gyflwyno'r prosiect yn derfynol mewn cyd-destun creu lleoedd – yn arwydd o fath o ymarfer yn y gwasanaethau treftadaeth sydd ddim yn dod o dan un elfen o fframwaith sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mewn theori, dylai cylch gwaith elusennol Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru gyflawni rhan o'r swyddogaeth hon. Yn yr arolwg o grwpiau gwirfoddolwyr treftadaeth a gynhaliwyd fel rhan o brosiect CIP, pan ofynnwyd i'r cyfranogwyr pa mor ymwybodol oeddent o'r rôl yr oedd gwahanol asiantaethau'n ei chwarae wrth warchod treftadaeth yng Nghymru, nid oedd llawer o ymwybyddiaeth o gylch gwaith Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru.





*Ymwybyddiaeth o swyddogaethau asiantaethau treftadaeth yng Nghymru*

Nid oes gan yr Ymddiriedolaethau gylch gwaith o reidrwydd i fynd â phrosiectau y tu hwnt i gloddio archaeolegol, dadansoddi a dehongli ar ôl cloddio, i ddarparu cymorth ar gyfer adfer, cadwraeth a sefydlogi, a chynnwys datblygiad sgiliau ystyrlon, addysg ac ymgysylltu fel rhan o waith cyfannol sy'n seiliedig ar le. Dim ond rhan o'r swyddogaethau creu lleoedd sydd eu hangen i hwyluso ymgysylltu cyfranogol ystyrlon mewn prosiectau creu lleoedd y maent yn ei chyflawni.

O ran amser cyswllt yn unig, cymerodd y CIP ran mewn 50 awr o weithgareddau ar safle'r Efail o Oes Victoria, gan ddarparu 77 diwrnod i fyfyrwyr gyda 15 o fyfyrwyr. Drwy 4 gweithdy, a oedd yn cyfateb i 11 awr, cafodd 71 o gyfranogwyr o'r Rhwydwaith Treftadaeth ehangach eu cynnwys. Cynhaliwyd 16 cyfarfod safle, 4 cyfarfod ar-lein a 5 cyfarfod campws gyda chyfanswm o 45 o bobl o sefydliadau partner. Cyfrannodd y CIP yn uniongyrchol at 3 digwyddiad a oedd yn rhychwantu 15 awr i gynulleidfa o oddeutu 180 o bobl i gyd gyda'i gilydd. Ar ben hyn, roedd yr ohebiaeth dros e-bost a ffôn, ac ymweliadau'r CIP ar ei ben ei hun i safleoedd treftadaeth ddiwydiannol ar draws yr awdurdod lleol.

Mae'n debyg mai canlyniad cadarnhaol mwyaf uniongyrchol yr ymgysylltu cynhwysfawr hwn â grwpiau cymunedol, asiantaethau treftadaeth, a swyddogion ac aelodau cabinet yn yr awdurdod lleol yw'r gwahoddiad i  CHART ddod yn brif bartner cyflawni ar Strategaeth Treftadaeth Castell-nedd Port Talbot gyda ffocws arbennig ar sgiliau a hyfforddiant. **Bydd hyn bron yn sicr yn llwyfan i ymgorffori rhai o ganfyddiadau'r gwaith hwn a ariannwyd gan AHRC i sicrhau budd cyhoeddus i gymunedau lleol yn yr ardal a gyda nhw.** I'r perwyl hwn, mae ymchwil CIP wedi gwneud llawer ar gyfer cyd-greu a gweithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau ymchwil Addysg Uwch, cymunedau, awdurdodau lleol ac asiantaethau treftadaeth, a phwysigrwydd ymyriadau ffisegol, materol a chyfranogol fel ffordd o sianelu gweithgarwch ymchwil tuag at fudd cymdeithasol ehangach.



# Argymhellion

**Mae ymchwil CIP wedi bod yn amhrisiadwy wrth ddatblygu cylch gwaith CHART. Mae'r rôl wedi bod yn amlochrog, gan ddarparu goruchwyliaeth, arweiniad a chefnogaeth ar gyfer ymgysylltu 'ymarferol', cyd-greu gweithgareddau mewn amgylchedd sy'n seiliedig ar le, gwrando ar bryderon a dyheadau grwpiau ac unigolion, a rhwydweithio â chynrychiolwyr lleol o'r asiantaethau treftadaeth a'r llywodraeth.**

Ar ben hyn roedd creu cynnwys ar gyfer podlediad, ymweld â safleoedd i ddeall cymeriad a chyflwr yr asedau treftadaeth yn well, ysgrifennu'r astudiaeth achos hon, a sicrhau bod argymhellion polisi'n cael eu gwneud ar gryfder adolygiad trylwyr o astudiaethau treftadaeth critigol cyfredol a gwybodaeth gadarn am y sector treftadaeth mewn cyd-destun polisi datganoledig.

Wrth galon treftadaeth sy'n cael ei chyd-greu a'i hysgogi gan y gymuned, mae traddodiad cryf o wirfoddoli, ac er bod fy arolwg o grwpiau treftadaeth gymunedol wedi canfod bod y cyngor, ar y cyd â gwasanaethau treftadaeth a chyrff statudol, yn cael ei ystyried yn bennaf yn gyfrifol am warchod asedau treftadaeth, roedd ymdeimlad cryf bod gan ddyletswydd ddinesig a chyswllt cymunedol rôl bwysig i'w chwarae, o ran rheolaeth ac o ran y broses o wneud penderfyniadau ynghylch beth i'w warchod a sut.

**Gellid cynnal ymchwil yn y dyfodol yn y maes hwn, ac fel cam y gellir ei gymryd ar unwaith, gellid comisiynu arolwg sy'n cyd-fynd â'r ymchwil a ddarparwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn 2014 i archwilio sut a pham y mae mudiadau treftadaeth gymunedol yng Nghymru wedi newid yn ystod y degawd diwethaf.**

Efallai y bydd archwiliad a dadansoddiad diweddar o gynlluniau Mabwysiadu Asedau Treftadaeth (Mehefin 2022), a gomisiynwyd gan Gyngor Archaeoleg Prydain a'i ariannu gan Cadw, yn cynnig rhai egwyddorion arweiniol cyfredol ar gyfer y cydbwysedd y mae angen ei daro rhwng stiwardiaeth a yrrir gan y gymuned, rhwymedigaethau statudol a hwyluso.

**Oedran cyfartalog y gwirfoddolwyr a ymatebodd i'm harolwg oedd 63.5 oed. Soniodd Diane Davies a'i chyd-wirfoddolwr Ian Davies ym Mharc Gwledig Craig Gwladus am eu hoed a'r angen i recriwtio gwirfoddolwyr newydd, iau, i weithredu ym maes treftadaeth.**

Felly, gall astudiaeth hydredol o wirfoddoli mewn mudiadau treftadaeth gymunedol fod yn fwy defnyddiol na dim ond 'ciplun' ar lefel awdurdod lleol. Gallai ein helpu i ddeall yn well sut y gellir mynd ati i recriwtio a chynllunio olyniaeth mewn grwpiau.

Fel y dywedodd Esta Lewis, swyddog datblygu prosiect yn adran treftadaeth, diwylliant a thwristiaeth Cyngor Castell-nedd Port Talbot, sydd wedi cyfrannu at bodlediad prosiect CIP, mor glir: “mae treftadaeth yn esblygu”. Bydd deall y broses esblygu hon yn well yn helpu i lywio cylchoedd ymgysylltu a nodi sut a ble y gellid cyfeirio adnoddau cyfyngedig orau i gefnogi’r gwaith o gyd-greu gyda chymunedau.

Gall chwalu’r rhaniadau yn y ffordd rydym yn diffinio cymunedau hefyd fod yn ddefnyddiol yng nghyd-destun treftadaeth. Yr hyn a ddaeth i’r amlwg yn achos prosiect gefail Craig Gwladus oedd cymuned ymarfer a oedd yn frwd dros roi cyfleoedd i bobl ifanc ar gyrion cymdeithas fynegi eu hunain. Y prif argymhelliad a ddeilliodd o’r gweithgaredd hwn oedd yr angen i ystyried pa gymarebau sydd eu hangen i gynnal y gwaith. Mae’n gallu bod yn ddigon heriol cyfrannu sgiliau crefft cymhleth ond buddiol y mae eu hangen yn fawr. Ond gall ceisio gwneud hynny heb gymarebau tiwtoriaid i fyfyrwyr priodol mewn ardaloedd lle mae amddifadedd hirdymor wedi effeithio ar ansawdd addysg greu amrywiaeth o risgiau. Os ydym am darfu ar y ‘llif anfantais di-dor’ mewn ardaloedd o’r fath a chyflawni gofynion cyfreithiol *Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015*, yna rhaid dod o hyd i adnoddau i roi’r gefnogaeth, yr oruchwyliaeth a’r tosturi ymroddedig y maent yn eu haeddu i bobl ifanc.



# Casgliad

Mae rôl y CIP wedi fy ngalluogi i ddod o hyd i ofod newydd rhwng ymchwil treftadaeth hanfodol, gwerth treftadaeth gymunedol a gyd-grëwyd, a'r heriau sy'n wynebu darpariaeth gwasanaeth treftadaeth statudol mewn cyd-destun polisi datganoledig. Llwyddwyd i gynhyrchu tystiolaeth newydd ar sut y gall trafodaethau ar dreftadaeth sy'n cael eu gyrru gan ymchwil gael effaith ar lawr gwlad, a sut y gall canlyniadau'r ymgysylltu hwnnw fwydo'n ôl i'r agenda ymchwil. Mae'r ymarfer cyd-greadigol ym Mharc Gwledig Craig Gwladus yn fodel sydd wedi ceisio bod mor deg â phosibl wrth werthfawrogi gwybodaeth *pob* cyfranogwyr.

**Rhaid i ymchwil mewn Addysg Uwch yn y DU ddilyn tueddiadau byd-eang a chydnabod yr angen i ymchwil ragorol lywio effeithiau cymdeithasol ehangach. Wrth i REF 2029 gael ei ail-ddylunio ar lefel fawr, un maes sydd wedi bod yn destun craffu yw cymeriad yr ymchwil sydd ei angen i 'ategu' astudiaethau achos ar effaith.**

Efallai y bydd newidiadau i'w croesawu yn y maes hwn, ond mae strwythur sylfaenol ymchwil-cyn-effaith yn codi cwestiynau parhaus am natur democratiaeth gwybodaeth mewn ymchwil addysg uwch. Mae hwn yn dal yn amgylchedd lle mae agendâu ymchwil yn parhau i fod yn rhywbeth i'r elît academaidd, a'r cyhoedd yn ehangach yn fuddiolwyr goddefol i drefniadau creu gwybodaeth sydd ar eu cyfer nhw ac amdanyn nhw, mewn fformat lle mai dim ond mân ychwanegiadau yw'r arbenigwyr sy'n ymgysylltu â'r cyhoedd. Yr hyn y mae rôl y CIP wedi'i ddwyn i'r amlwg yw'r angen am gyd-greu a gweithgarwch ymgysylltu i lywio'r ymchwil sylfaenol yn y lle cyntaf, fel bod y llwybrau effaith yn seiliedig ar angen cymdeithasol gwirioneddol yn hytrach na'r hyn y tybir sydd ei angen.

Gwybodaeth Bellach:

I gael rhagor o wybodaeth am Gymunedau Creadigol AHRC ewch I www.creativecommunities.uk

Cysylltwch â'r CIP:

Alexander Langlands, Prifysgol Abertawe | a.j.langlands@swansea.ac.uk

Ariennir Cymunedau Creadigol gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn y DU (Cytundeb Grant Rhif AH/X001555/1) ac fe'i cynhelir ym Mhrifysgol Northumbria, Newcastle.